

MAREUDD ap RHYS GRYG (bu farw 1271), tywysog Deheubarth

Enw: Maredudd ap Rhys Gryg
Dyddiad marw: 1271
Plentyn: Rhys ap Maredudd
Rhiant: Rhys Gryg
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog Deheubarth
Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

mab iau **Rhys Gryg**. Ar y cyntaf, yng ngogledd-ddwyrain Ystrad Tywi (gan gynnwys castell Llanymddyfri) y gorweddai ei gyfran ef o diroedd yr **arglwydd Rhys**; yn ddiweddarach ychwanegwyd yn fawr at ei diroedd, a daethant i gynnwys y wlad o gylch castell Dryslwyn. Oherwydd y gydymgeisiaeth rhyngddo a'i frawd, Rhys Mechyll, ac, yn ddiweddarach, rhyngddo a mab hwnnw, sef Rhys Fychan o Ddinefwr, cafodd ei anfon ymaith o'r De. Cafodd ddinas noddfa yn y Gogledd, bu gyda **Llywelyn** yng nghyrchoedd llwyddiannus 1256, a chael yn dâl am ei gymorth diroedd o gylch Llanbadarn ac yng nghantref Buellt. Cymerth ran flaenllaw ym muddugoliaeth y Cymry yn y Cymerau (1257), eithr gan i Rys Fychan ddyfod drosodd i bleidio'r Cymry yng nghwrs y frwydr tueddodd cydymdeimlad Maredudd tua'r ochr arall cyn gynhared â mis Hydref 1257. Serch iddo gymryd rhan yn yr wrogaeth gyffredinol i **Lywelyn** yn gynnar yn 1258, ac yn y cytundeb â Sgotland ym mis Mawrth, trosglwyddodd ei wrogaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn i frenin Lloegr. Bu'r weithred hon yn achos prawf nodedig, y cyntaf o'i fath yng Nghymru - ar 28 Mai 1259 cyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth gerbron cyngor o arglwyddi Cymreig, fe'i condemnwyd, a'i garcharu am gyfnod yng nghastell Cricieth. Yr oedd telerau ei ymgymodi â **Llywelyn** yn 1261 yn llym, eithr talwyd am ei wasanaeth i'r brenin trwy i hwnnw achub (a hynny o friad) ei wrogaeth yn nhermau cytundeb Trefaldwyn (1267). Yn 1270 caniatawyd i **Lywelyn** gael yr wrogaeth honno. Bu Maredudd farw 27 Gorffennaf 1271 yn y Dryslwyn a chladdwyd ef yn abaty Ty-gwyn-ar-Daf.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

- J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I
J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II
Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)
Littere Wallie (1940)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q11935381

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Pierce, T. J., (1953). MAREUDD ap RHYS GRYG (bu farw 1271), tywysog Deheubarth. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MARE-APR-1271>

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government